# Canllaw i rieni i adnabod **Clwyf Melyn**
## mewn babanod Du a Brown



### Aseswch yng ngolau dydd naturiol



Gwiriwch groen eich babi yng ngolau dydd naturiol (e.e. wrth ymyl ffenestr). Gall golau ystafell newid lliw croen a chuddio arwyddion o glwyf melyn.

### Gwiriwch holl gorff eich babi



Mewn amgylchedd cynnes, tynnwch ddillad eich babi a chwiliwch am unrhyw liw melyn o'i gorun i'w sawdl.

### Gwiriwch wyn y llygaid



A yw gwyn llygaid eich babi'n edrych yn felyn? Waeth beth fo lliw croen eich babi, dylai'r rhain fod yn wyn bob amser.

### Archwiliwch du mewn y geg



Gwiriwch du mewn ceg eich babi yn cynnwys y tafod a'r deintgig am unrhyw liw melyn.

### Gwnewch brawf gwynnu ar y croen



Pwyswch yn ysgafn ar gledr y llaw a gwadn y droed. Efallai y bydd y rhannau hyn yn dangos lliw melyn mwy amlwg mewn babanod Du a Brown.



Pwyswch eich bys yn ysgafn ar frest, talcen neu flaen trwyn eich babi am dair eiliad. Os oes gan eich babi glwyf melyn, bydd yn ymddangos yn felyn cyn i lif y gwaed ddychwelyd i'r rhan honno.

**Os oes gan eich babi unrhyw rai o'r symptomau hyn, dyllai gael ei brofi am glwyf melyn gan ddefnyddio dyfais TCB neu gael prawf gwaed. Mae rhai achosion o glwyf melyn yn rhai ysgafn a hylifau ychwanegol yn unig fydd eu hangen i'w trin. Ond gall rhai achosion fod yn ddifrifol, felly mae'n bwysig cael cyngor ar unwaith. Ffoniwch 111 y GIG os ydych chi'n bryderus.**

## Lle a phryd i geisio cymorth

**Cysylltwch â gweithiwr iechyd proffesiynol neu ffoniwch 111 os yw eich babi:**

- Wedi colli diddordeb mewn cael ei fwydo
- Yn ymddangos yn fwy cysglyd na'r arfer
- Heb wlychu ei gewyn yn ystod y 6 awr ddiwethaf
- Yn pasio wrin tywyll
- Yn felyn yn ystod 24 awr gyntaf ei fywyd
- Yn felyn a gwelw
- Os ydych yn bryderus neu fod eich babi'n edrych yn sâl

**Ewch i Adran frys eich ysbyty agosaf ar unwaith neu ffoniwch 999 os yw eich babi:**

- Yn anodd ei ddeffro
- Yn ysgwyd neu wingo ei freichiau a'i goesau (fel ffitiau)
- Yn stopio anadlu am ychydig neu'n anadlu'n afreolaidd
- Â chroen gwelw neu'n flotiog neu'n teimlo'n oer

**Nodyn olaf i'w gofio:**

**Gall clwyf melyn edrych yn wahanol ar groen tywyll. Coeliwch eich greddf os ydych chi'n bryderus, gofynnwch am adolygiad neu farn rhywun arall. Mae eich barn ac iechyd eich babi'n bwysig.**

Cysyniad wedi'i ddylunio gan Helen Gbinigie Ymgynghorydd Newydd-enedigol Ysbyty Medway ac arweinydd clinig newydd-enedigol KM LMNS Dr Oghenetega Edokpolor ST 5 Ysbyty Medway

NHS Medway NHS Foundation Trust · NHS England South East · Kent and Medway Local Maternity and Neonatal System · FIVEXMORE · Bliss for babies born premature or sick · NHS Race & Health Observatory Breaking barriers for better health